# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS
19 LÔN GARNEDD,
ABERGELE,
LL22 7EW,
johnmaclennan9@icloud.com
01745 826901

## Hysbysiad Cyswllt Preifatrwydd

**Pan fyddwch yn cysylltu â ni**
Fe fydd y wybodaeth a gyflwynwch (gwybodaeth bersonol megis enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, sefydliad) yn cael ei phrosesu a'i chadw i'n galluogi ni i gysylltu â chi, ac i ymateb i'ch gohebiaeth, i ddarparu gwybodaeth a/neu fynediad i'n cyfleusterau a'n gwasanaethau. Ni fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu na'i darparu ar gyfer unrhyw drydydd person arall.

**Hawl y Cyngor i brosesu gwybodaeth**
Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol Erthygl 6 (1) (a) (b) ac (e)

Fe ddigwydd prosesu gyda chaniatâd person y data neu
Mae prosesu'n angenrheidiol ar gyfer ufuddhau i ofynion cyfreithiol neu
Mae prosesu'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu tasg a weinyddir er lles y cyhoedd, neu yng ngweithredu awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolwr.

**Diogelwch gwybodaeth**
Mae gan Gyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos ddyletswydd i sicrhau diogelwch data personol. Fe ofalwn fod eich gwybodaeth wedi ei gwarchod rhag mynediad anawdurdodedig, colli, camddefnydd, ffugio, distrywio neu ddatgelu anawdurdodedig. Fe wneir hyn trwy gyfrwng camau technegol a pholisïau pwrpasol. Fe ellir gofyn am gopïau o'r polisïau hyn.

Ni fyddwn yn cadw eich data ond ar gyfer y pwrpas y casglwyd ef, a dim ond am gyhyd ag sy'n angenrheidiol. Wedyn fe gaiff ei ddileu. Gallwch ofyn am ddileu'ch data a gedwir gan Gyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos unrhyw amser.

**Plant**
Ni fyddwn yn prosesu unrhyw ddata sy'n ymwned â phlentyn (dan 13 oed) heb ganiatâd penodol rhiant/ gwarcheidwad y plentyn dan sylw.

**Mynediad i wybodaeth**
Mae gennych yr hawl i ofyn am fynediad i'r wybodaeth sydd gennym amdanoch. Gallwch wneud hynny trwy gysylltu â'n Swyddog Gwybodaeth Data: John MacLennan, 19 Lôn Garnedd, Abergele, LL22 7EW ar johnmaclennan9@icloud.com

**Cywiro gwybodaeth**

Os tybiwch fod y wybodaeth sydd gennym amdanoch yn anghywir gallwch gysylltu â ni fel y gallwn ni ei diweddaru a chadw'ch data'n gywir. Cysylltwch â John MacLennan, 19 Lôn Garnedd, Abergele, LL22 7EW ar 01745 826901 neu johnmaclennan9@icloud.com i ofyn am hynny.

**Dileu gwybodaeth**
Os hoffech i Gyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos ddileu'r wybodaeth amdanoch cysylltwch â: Manylion fel uchod i ofyn am hynny.

**Yr hawl i wrthwynebu**
Os tybiwch nad yw'ch data'n cael ei brosesu ar gyfer y pwrpas y casglwyd ef fe allwch wrthwynebu. Cysylltwch â: Manylion fel uchod i wrthwynebu.

**Hawliau'n ymwneud â gwneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio.**
Nid yw Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a llanelian yn Rhos yn defnyddio unrhyw fath o wneud penderfyniadau awtomataidd na phroffilio data personol unigolyn.

**Cwynion**
Os oes gennych gwyn yn ymwneud â'r ffordd y mae'ch data personol wedi ei brosesu gallwch gwyno wrth Swyddog Gwybodaeth Data Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos, JohnMacLennan, 19 Lôn Garnedd, Abergele, LL22 7EW ar 01745826901 ac ar johnmaclennan9@icloud.com a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth casework@ico.org.uk Ffôn.: 0303 123 1113

**Casgliad:** Yn unol â'r gyfraith nid yw Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos ond yn casglu swm cyfyngedig o wybodaeth amdanoch sy'n angenrheidiol ar gyfer gohebiaeth, gwybodaeth a darpariaeth gwasanaeth. Nid yw Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos yn defnyddio proffilio ac nid ydym yn gwerthu na throsglwyddo'ch data i drydydd person. Nid yw Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos yn defnyddio'ch data ar gyfer pwrpasau ar wahân i'r rhai a nodwyd. Mae Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos yn gofalu bod eich data'n cael ei gadw'n ddiogel. Mae Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos yn dileu pob gwybodaeth y tybir nad yw bellach yn angenrheidiol. Mae Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos yn adolygu'n gyson ein Polisïau Preifatrwydd i'w diweddaru i warchod eich data.